

## Planhigyn y Niwl

Dim ond mewn cwm â'i gwmwl ei hun  
y mae'r llysieuyn yn tyfu  
a all wella twymyn teimlo'n ddryslyd.

Mae'n foddion mor brin  
nes bod rhaid ei warchod  
gan filwyr  
a hyfforddwyd i feddwl  
yn glir. Liw nos, fe welwch  
goelcerth y gwylwyr  
yn ymladd eu penbleth.

Yn y glaw, mae persawr planhigyn y niwl yn trechu'r  
gorau, ac fe'u clywir yn wylo  
dros gwymp dinasoedd yr ewyllys.

Gwyneth Lewis